

## **Datblygiad Proffesiynol mewn Maethu: Cyflwyniad i'r Dyddlyfr Myfyriol Personol ar gyfer gofalwyr maeth.**

### **Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**

[Y Rhwydwaith Maethu](#) yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, sy'n dod â phawb sy'n gysylltiedig â bywydau plant maeth ynghyd. Rydym yn cynorthwyo gofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant, ac rydym yn gweithio â gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu a rhannu arferion da. Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc maeth yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol ynglŷn â'r gwahaniaeth y mae gofal maeth yn ei wneud. Rydym yn hyrwyddo maethu ac yn ceisio creu newid hanfodol, fel y gall gofal maeth fod y gorau un y gall fod.

Fel rhan o'r rhaglen [Maethu Cymunedau](#), rydym wedi datblygu Dyddlyfr Myfyriol Personol ar gyfer gofalwyr maeth. Ein nod yw helpu i wneud iddynt deimlo eu bod wedi'u grymuso a'u hysgogi, gan eu galluogi i ddefnyddio'u cryfderau a'u galluoedd i ddod â budd iddynt eu hunain, eu cymuned a phobl eraill, gan wella'u hyfedredd, eu hyder a'u cymhelliant eu hunain.

### **Dyddlyfr Myfyriol Personol Y Gofalwr Maeth**

Mae'r Dyddlyfr Myfyriol Personol hwn yn gyfrif o'ch datblygiad personol eich hun ond, yn fwy hanfodol, mae'n gyfle i fyfyrion ar eich profiad dysgu.

Nid oes yna ffordd gywir neu anghywir o gofnodi yn eich dyddlyfr, gan y dylai hyn gymryd eich profiad personol, eich hoff arddull dysgu a'ch nodau dysgu unigol chi i ystyriaeth. Mae'r dyddlyfr wedi'i fwriadu'n bennaf fel gofod preifat ar gyfer myfyrdod, atgyfnerthu a phennu nodau personol.

Bydd y dyddlyfr hwn yn offer gwerthuso pwysig fydd yn eich cynorthwyo â'ch datblygiad proffesiynol eich hun.

Nid yw ymgysylltu â phrofiad dysgu o angenrheidrwydd yn golygu bod dysgu wedi digwydd - dim ond drwy allanoli'r profiad y gallwch ddechrau ei gymhwyso i'ch arferion a'ch profiad maethu. Dyma le y gall eich dyddlyfr myfyriol personol helpu, gan ei fod yn caniatáu ichi ddogfennu'r hyn rydych yn ei ddysgu a'ch helpu i ddod yn fwy myfyriol yn eich ymarfer dyddiol.

## **Beth yw buddion ysgrifennu Dyddlyfr Myfyriol Personol?**

Mae myfyrio'n broses ddefnyddiol. Mae'n eich helpu i wneud synnwyr o'ch profiadau dysgu ac i ddysgu oddi wrthynt. Bydd yn caniatáu ichi ddangos y gallwch feddwl yn feirniadol am eich sgiliau neu'ch ymarfer eich hun er mwyn gwella a dysgu. Mae'n bwysig dadansoddi yn hytrach na dim ond disgrifio'r pethau rydych yn myfyrio arnynt, a phwysleisio sut y byddwch yn cymhwyso'r hyn rydych wedi'i ddysgu. Mae hefyd yn hysbys iawn y gall ysgrifennu ar bapur yr hyn rydych wedi'i ddysgu eich helpu i'w gofio neu hyd yn oed i weld pethau nas gwelsoch y tro cyntaf.

Anogir gofalcwyr maeth i gymryd cyfrifoldeb am eu haddysg a'u datblygiad eu hunain, gan ystyried sut y gellir cymhwyso gwybodaeth a sgiliau i wella'u gallu i ofalu am blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Felly, fe ellir defnyddio'r dyddlyfr fel offer ychwanegol ar gyfer rhoi tystiolaeth o, a chynllunio'ch datblygiad proffesiynol parhaus, fel rhan o'ch sefydlu, goruchwyliaeth a phroses adolygu blynyddol gyda'ch gwasanaeth maethu.

## **Cofnod o Ddysgu a Datblygu Parhaus Fframwaith Hyfforddi Ôl-Gymeradwyo'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.**

Mae'r dyddlyfr yn cydategu'r [Cofnod o Ddysgu a Datblygu Parhaus Fframwaith Hyfforddi Ôl-Gymeradwyo'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol](#), sy'n ffurfio rhan allweddol o'ch goruchwyliaeth a phroses adolygu maethu blynyddol. O'r herwydd, mae'n adlewyrchu dysgu blaenorol; mae'n nodi rhagor o anghenion hyfforddi a datblygu; mae'n darparu offer ar gyfer cynllunio'ch dysgu a rhoi tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Nod y cofnod yw ei fod yn unigol ac mae'n annog gofalcwyr maeth i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain; ystyried ym mhob un cyfnod sut mae dysgu'n effeithio ar eu gallu i ofalu am blentyn, amdanynt eu hunain a'u teulu. Mae'r Cofnod Dysgu Personol a'r Cynllun Datblygu Personol wedi'i greu i fynd law yn llaw â Fframwaith Dysgu a Datblygu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, ac mae angen ei gwblhau ar y cyd â darllen y ddogfen honno.

## **[Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru](#)**

Mae sefydlu yn rhan bwysig o'ch datblygiad personol, ac fe fydd yn eich helpu i ymgartrefu yn eich rôl a bod yn effeithiol yn eich gwaith. Bydd cwblhau'r AWIF yn eich helpu i ennill, datblygu a chryfhau'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n hanfodol ar gyfer eich rôl ac ar gyfer arferion iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Mae'n sail ar gyfer eich dysgu a'ch datblygiad yn y dyfodol, ac mae'n dangos y cynnydd rydych wedi'i wneud hyd hynny. Cynllunnir y fframwaith ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol. Mae'n darparu strwythur ar gyfer sefydlu cyffredin ledled Cymru, gan amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae ar weithwyr proffesiynol angen eu hennill yn ystod eu cyfnod sefydlu. Nid yw'n ofynnol i ofalcwyr maeth gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ond disgwylir i ofalcwyr newydd gwblhau adrannau perthnasol y fframwaith sefydlu (adrannau 2, 4, 5, 6, a 7). Mae'r dyddlyfr yn cydategu'r llyfrau gwaith y dylid eu cwblhau ar gyfer pob adran o'r fframwaith.

## Sut i ddefnyddio'r Dyddlyfr Myfyriol Personol

Mae'r dyddlyfr yn rhan o ymagwedd tuag at ddysgu cymysg Y Rhwydwaith Maethu, sy'n cyfuno dysgu ar-lein a dysgu wyneb yn wyneb mewn grwpiau, ynghyd ag ymchwil a myfyrio a hunan-dywysir.

Dylid cwblhau pob cofnod yn y dyddlyfr ar ôl mynychu digwyddiad datblygiad proffesiynol Maethu, megis:

- Cwrs/digwyddiad hyfforddi wyneb yn wyneb.
- Gweminarau neu e-ddysgu ar-lein.
- Gweithgareddau trafodaeth mewn grŵp.
- Darlithoedd neu seminarau.
- Astudiaethau achos neu ddarllen adnoddau'r Rhwydwaith Maethu.

Ar ôl mynychu un o'r digwyddiadau hyn, fe gewch eich cofnod dyddlyfr eich hun i'w gwblhau, i adlewyrchu'ch meddyliau a'ch profiad dysgu unigol.

Mae hwn yn ddyddlyfr dysgu personol yn hytrach nag yn gofnod aelwyd, ac fe ddylid ei gwblhau gan bob un gofalwr maeth unigol, hyd yn oed os gwnaeth y ddau fynychu'r digwyddiad.

Dylid cwblhau'r dyddlyfr ar ôl pob un digwyddiad y mae gofalwr maeth yn ei fynychu, yn hytrach na digwyddiadau lluosog. O'r herwydd, mae wedyn yn dal yr hyn y mae gofalwr maeth wedi'i ennill o bob un cwrs hyfforddi, ac mae'n ffurfio rhan o'u portffolio o dystiolaeth ar gyfer y [Fframwaith Dysgu a Datblygu ar gyfer Gofalwyr Maeth ar ôl Cymeradwyo yng Nghymru](#) a [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

## Yr hyn i'w gofnodi yn y Dyddlyfr Myfyriol Personol

Mae'r dyddlyfr hwn sydd wedi'i strwythuro i'ch tywys drwy gyfres o gwestiynau, a gynlluniwyd i:

- Rhoi gwedd gliriach ar eich dysgu
- Canfod eich nodau datblygiad proffesiynol pellach
- Rhoi tystiolaeth o'ch deilliannau ar gyfer y fframweithiau dysgu a datblygu ar gyfer gofalwyr maeth yng Nghymru, fel a restrir uchod.

Bydd arnoch angen cofnodi'r wybodaeth a ganlyn:

- Teitl y digwyddiad hyfforddi/proffesiynol, math o ddigwyddiad a dyddiad
- Oriau'r amser dysgu a gwblhawyd
- Y materion dysgu allweddol, a sut y caiff y dysgu hwn ei drosglwyddo i'ch arferion gofal plant a'ch maethu
- Pa ddatblygiad proffesiynol pellach sy'n ofynnol, a pha gyfleoedd sydd ar gael i chi gyflawni hyn
- Yr hyn rydych wedi'i ddysgu amdanoch eich hun fel gofalwr maeth, ac fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn

- Pa ddeilliannau'r [Fframwaith Dysgu a Datblygu y Fframwaith Maethu Cenedlaethol](#) sydd wedi'u cyflawni ac mae tystiolaeth ohonynt
- Pa ddeilliannau'r [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) sydd wedi'u cyflawni ac mae tystiolaeth ohonynt
- Yr hyn y byddwch yn ei rannu â'ch gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo
- Yr hyn i'w gynnwys yn eich Cofnod Dysgu Personol a'ch Cynllun Datblygu Personol.

Bydd eich atebion i'r cwestiynau allweddol hyn yn helpu i egluro ac i ynganu materion dysgu, deilliannau a nodau i roi tystiolaeth o'ch cynnydd:

- Beth a wnes ei ddysgu?
- Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud i'm harferion maethu ac i'r plant yn fy ngofal?
- Sut mae'r dysgu hwn wedi adeiladu ar fy ngwybodaeth a'm sgiliau presennol i ddiwallu anghenion plant sydd wedi'u lleoli ac i wella deilliannau?
- Pa ragor o anghenion neu nodau datblygu a ydwyf wedi'u nodi?

### **Pa mor fanwl y dylai'r dyddlyfr fod?**

Meddylwch am sut y byddai'r plentyn neu'r person ifanc rydych yn gofalu amdano yn ymateb i ddarllen yr wybodaeth rydych yn ei chofnodi. Byddwch yn sensitif i'w teimladau a defnyddiwch iaith nad yw'n barnu. Byddwch yn ymwybodol o gyfrinachedd; er enghraifft, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a all arwain at adnabod, megis cyfenw'r plentyn.

### **Gyda phwy y gallaf rannu'r Dyddlyfr Myfyriol Personol?**

Tra bod y dyddlyfr wedi'i fwriadu fel gofod preifat ar gyfer myfyrio didwyll, mae'r adran olaf yn gofyn ichi ystyried pa ddysgu y byddwch yn ei rannu â'ch gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo. Bydd hyn yn fodd o atgoffa o feysydd/pynciau allweddol y dymunwch eu trafod gyda nhw, yn y goruchwyllo ac yn eich adolygiad blynyddol.

### **Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu**

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaeth ymgynghori hanfodol i aelodau.

#### **Cyngor**

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych yn ffonio ar adegau eraill, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom yn:

[fosterlinewales@fostering.net](mailto:fosterlinewales@fostering.net)

## **Cymorth ac adnoddau**

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, ac mae ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a dibynadwy i drafod materion gofal maeth. [thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)

## **Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori**

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn [sarah.mobedji@fostering.net](mailto:sarah.mobedji@fostering.net).

## **Cysylltu**

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru  
33, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HB.  
ffôn: 029 2044 0940  
e-bost: [wales@fostering.net](mailto:wales@fostering.net)  
[www.fostering.net](http://www.fostering.net)

Canfyddwch ni ar Facebook: [facebook.com/thefosteringnetwork](https://www.facebook.com/thefosteringnetwork)

Dilynwch ni ar Twitter: [@fosteringnet](https://twitter.com/fosteringnet)

Dilynwch ni ar Instagram: [@fosteringnet](https://www.instagram.com/fosteringnet)



/thefosteringnetwork  
@thefosteringnetwork



@fosteringnet



© Y Rhwydwaith Maethu 2020

## Atodiad 1 – Dyddlyfr Myfyriol Personol



### Datblygiad Proffesiynol mewn Maethu: Dyddlyfr Myfyriol Personol

Dylid cwblhau'r dyddlyfr hwn ar ôl mynychu digwyddiad hyfforddi gan Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, ac mae'n rhan o'n hymagwedd tuag at ddysgu cymysg, sy'n cyfuno dysgu ar-lein a dysgu wyneb yn wyneb mewn grwpiau ag ymchwil a myfyrdod wedi'u hunan-dywys.

Mae'r dyddlyfr yn cydategu'r Cofnod Fframwaith Hyfforddi Ôl-Gymeradwyo o Ddysgu a Datblygu Parhaus, y dylai gofalywyr maeth ei ddefnyddio i gael tystiolaeth o ddysgu ac i rannu â'u gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel gofod preifat ar gyfer myfyrdod, atgyfnerthu a phennu nodau personol, i gynorthwyo'r gwaith o gymhwyso dysgu.

#### Enw'r Cyfranogwr

#### Cwrs neu ddigwyddiad a fynychwyd

**Math o ddigwyddiad** (hyfforddiant wyneb yn wyneb, hyfforddiant rhyngweithiol ar-lein, gweminar, ac yn y blaen.)

**Dyddiad y cwrs/digwyddiad**

**Oriau dysgu a gwblhawyd**

**Beth oedd y materion dysgu allweddol i mi?**

**Sut y byddaf yn cymhwyso'r addysg hon i fy arferion maethu a'm gwaith uniongyrchol â phlant?**

e.e. Beth fyddaf yn ei wneud yn wahanol, yn dechrau ei wneud neu'n stopio ei wneud.

Unigolion neu grwpiau i gysylltu â nhw

A large, empty rectangular box with a thin black border, occupying the upper half of the page. It is intended for notes or content related to the heading above it.



**Pa weithgareddau datblygiad proffesiynol ychwanegol y mae arnaf angen eu gwneud i ddatblygu'r dysgu hyn?**


e.e. Dysgu'n seiliedig ar ymarfer, cefnogaeth broffesiynol/gan gymheiriaid, dysgu/addysg ffurfiol, dysgu wedi'i hunan-gyfeirio.



**Beth ydwyf wedi'i ddysgu amdanaf fy hun fel gofalwr maeth/ymarferydd maethu?**



**Pa rai o ddeilliannau [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) y mae'r dysgu hwn wedi fy helpu i'w cyflawni?**



**Pa rai o ddeilliannau [Fframwaith Hyfforddi Ôl-Gymeradwyo ar gyfer Gofalwyr Maeth yng Nghymru](#) y mae'r dysgu hwn wedi fy helpu i'w cyflawni?**



**Pa wybodaeth y byddaf yn ei rhannu â'm Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo ac yn ei chynnwys yn fy Nghofnod Dysgu Personol a'm Cynllun Datblygu Personol?**

Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru  
33, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9HB.  
ffôn: 029 2044 0940  
e-bost: [wales@fostering.net](mailto:wales@fostering.net)  
[www.fostering.net](http://www.fostering.net)

Canfyddwch ni ar Facebook: [facebook.com/thefosteringnetwork](https://facebook.com/thefosteringnetwork)  
Dilynwch ni ar Twitter: [@fosteringnet](https://twitter.com/fosteringnet)  
Dilynwch ni ar Instagram: [@fosteringnet](https://www.instagram.com/fosteringnet)



/thefosteringnetwork  
@thefosteringnetwork



@fosteringnet



© Y Rhwydwaith Maethu 2020

Y Rhwydwaith Maethu. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277.  
Elusen gofrestredig rhif 280852. Rhif cofrestru TAW 231 6335 90.  
Swyddfa gofrestredig 87, Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA